

BIL Y GYMRAEG AC ADDYSG (Cymru)

1. Addysg Gymraeg

Mae'r term 'addysg Gymraeg' yn cael ei gamddefnyddio trwy'r ddogfen. Yn y ddogfen hon gall 'addysg Gymraeg' olygu dysgu'r iaith fel pwnc.

Mae hyn yn groes i bob trafodaeth gan Lywodraeth Cymru yn y gorffennol.

Efallai bod y term yn deillio o 'addysgu' am 'to teach', fel a geir yn *Cymraeg 2050* (2017):

"gwednewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny'n gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol." (t. 12)

Mae 'addysgu'r Gymraeg' yn wahanol i 'addysg Gymraeg'.

Mae *Cymraeg 2050* yn sôn yn benodol am 'addysg cyfrwng Cymraeg'. Nid yw'r term yma'n ymddangos yn y Bil. Mae *Cymraeg 2050* yn canolbwyntio ar gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r term 'addysg Gymraeg' wedi ei ddefnyddio ers tro byd i olygu 'addysg cyfrwng Cymraeg', e.e. *Cyflwyniad i Ddwylieithrwydd*, Delyth Jones, CAA, 1977, t. 117:

"Gwelir bod y rhieni hyn felly, yn sylweddoli mai addysg Gymraeg, (neu addysg drochi i'r plant di-Gymraeg), a rydd y cyfle gorau iddynt ddod yn ddwyieithog"

Mae *Ein Hiaith: Ei Dyfodol*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2002) yn cyfeirio at 'addysg Gymraeg'.

Y prif fudiad sydd wedi ymgrychu dros yw Rhieni dros Addysg Gymraeg.

Mae trafodaethau ar ysgolion Cymraeg yn barhaus yn sôn am 'addysg Gymraeg', e.e. *Gorau Arf*, gol. Iolo Wyn Williams, 2002, t. 14 "A ydyw Addysg Gymraeg yn llwyddiant? Mae'r ffaith fod y galw am addysg Gymraeg yn parhau i gynyddu ynddi ei hun yn fesur o lwyddiant."

Mae'n syfrdanol, yn sgil hyn, nad yw'r term 'ysgol Gymraeg' nac 'ysgolion Cymraeg' yn digwydd o gwbl yn y Bil.

Mae'r Bil yn cynnwys y cymal rhyfedd hwn: "y swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer pob categori iaith".

Yn ddiddorol mae nodiadau esboniadol yr Ysgrifennydd yn nodi ‘Pennu’r ddarpariaeth Gymraeg ofynnol mewn ysgolion ‘Prif Iaith – Saesneg – rhannol Gymraeg ar 10%’, yn wahanol i eiriad y Bil. **Byddai’n dda i’r Bil fabwysiadau’r term ‘darpariaeth’.**

1.1 Sut mae newid ystyr ‘addysg Gymraeg’ yn mynd i newid y drafodaeth

Mae’n ymddangos bod y Bil yn ymwneud ag addysg Gymraeg yn yr ystyr traddodiadol, nes cyrraedd y diffiniad newydd ar dudalen 5, 8(2):

“Ystyr ‘addysg Gymraeg’ yw –

- (i) addysgu’r Gymraeg, a
- (ii) addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg”

O hyn ymlaen yn y Bil, daw’n amlwg bod modd i bob ysgol honni ei bod yn cynnig ‘addysg Gymraeg’ os yw’n dysgu’r Gymraeg fel pwnc, e.e. mae disgwyl i “gorff llywodraethu ysgol adolygu ei gynllun cyflawni addysg Gymraeg”.

Mae’r drafodaeth yn cael ei chymylu ymhellach pan nodir y caiff Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg ei sefydlu. O ddeall yr ystyr newydd i ‘addysg Gymraeg’ nid yw hyn o reidrwydd yn ymwneud ag ysgolion trochi. Caiff y drafodaeth am yr angen i gynyddu addysg Gymraeg (ysgolion Cymraeg) ei dileu wrth drafod ‘addysg Gymraeg’ yng nghyd-destun ysgolion Saesneg.

Mae hyn yn wir am awdurdodau lleol y mae angen iddyn nhw hefyd ddarparu cynlluniau lleol.

Mae angen newid y term ‘addysg Gymraeg’ yn y Bil i ‘darpariaeth Gymraeg’.

1.1.1 Addysg drochi

Nid yw’r Bil chwaith yn cyfeirio at ‘addysg drochi’, sef sail ennill iaith, ond yng nghyd-destun addysg drochi hwyr. Mae’r Bil yn methu â thrafod datblygiad addysg Gymraeg, a chynnig dilyniant a datblygiad i hyn. Mae cynlluniau penodol mewn rhai siroedd sydd yn mynd i’r afael ag addysg drochi, e.e. Ceredigion am i bob ysgol gynradd gynnig addysg drochi i blant nes eu bod yn 7 oed.

Byddai’n dda i’r Bil roi arweiniad ar bwysigrwydd addysg drochi i gaffael iaith ac i ddatblygiad iaith yn nes ymlaen.

1.2 Effaith debygol hyn ar ddatblygiad ysgolion Cymraeg

Mae modd rhagweld y bydd awdurdodau lleol ac ysgolion Saesneg, yn sgil y Bil, yn gallu honni eu bod yn cynnig ‘addysg Gymraeg’ yn yr holl ysgolion Saesneg.

Caiff rhieni eu drysu, felly, gan feddwl bod modd cael addysg Gymraeg ym mha ysgol bynnag y bydd eu plant yn ei mynychu. Mae modd rhagweld y bydd llai o rieni am i’w plant fynychu ysgol Gymraeg.

Nid yw'r Bil yn rhoi blaenoriaeth i hybu ysgolion Cymraeg, a gellir rhagweld y bydd angen i rieni ymgyrchu eto o blaid y rhain, a gall yr ymgyrchu fod yn fwy anodd yn sgil diffiniad newydd y Bil o 'addysg Gymraeg'.

2. Diffyg targedau

Mae *Cymraeg 2050* yn nodi targedau penodol o ran cynnydd disgyblion mewn ysgolion Cymraeg, gyda'r nod o gael 30% erbyn 2031. Y nod wedyn yw 40% erbyn 2050 yn ôl nodiadau esboniadol yr Ysgrifennydd. Fodd bynnag, mae cwmp wedi bod rhwng 2022 a 2023. Bydd y nod hwn yn bell o'i gyrraedd, mae'n debyg, er bod nodiadau'r Ysgrifennydd yn sôn am yr uchelgais hwn. Er bod y Bil yn nodi y bydd Fframwaith Cenedlaethol i ddatblygu'r Gymraeg mewn addysg, nid oes sylw penodol i ysgolion Cymraeg yn y Bil. Mae angen i'r Bil nodi uchelgais am dwf ysgolion Cymraeg.

Yn hytrach na gwneud hyn, mae nodiadau esboniadol yr Ysgrifennydd yn awgrymu y daw niferoedd newydd o ysgolion Saesneg. Mae'r diffyg uchelgais o ran agor ysgolion Cymraeg newydd i'w resynu.

3. Categoriâu ysgolion

Mae'r Bil yn cynnig tri chategori: Prif Iaith – Cymraeg; Dwy iaith; Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg. Fel y saif y rhain, maent yn ddiffiniadau cyffredinol ac anfanwl.

Mae ymadroddion 'prif iaith' yn annelwig – o 51% i 100%. Mae'n anodd gwybod sut bydd hyn yn effeithio ar ysgolion a siroedd o ran dewis categorïau. Mae'r Bil fel pe bai'n gadael hyn yn rhy agored.

Mae'r drafodaeth yn y Bil am ddisgwyliadau ieithyddol y categori 'Dwy iaith' yn rhyfedd. Disgwylir i ddisgyblion ysgolion Prif Iaith gyrraedd C1 neu C2, ond dim B1 neu B2 a ddisgwylir gan ddisgyblion ysgolion 'Dwy iaith'. Mae hyn yn cyfateb i ysgolion Prif Iaith – Saesneg. Beth sydd i wahanu'r categorïau hyn o ran canlyniad ieithyddol?